Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Rhayader Under 5's Pre-School

**Yr Hen Bafiliwn Criced**
**Ysgol Gynradd Rhaeadr Gwy**
**Lôn Bryntinion**
**Powys**
**LD6 5LT**

**Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Rhayader Under 5's Pre-School

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Rhayader Under 5's Pre- School |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Robyn Vaughan, Fiona Abberley, Gemma Davies |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Emma Bevan |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 22 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 13 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 08:30 – 16:00 (Dydd Llun i Ddydd Gwener) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 02/07/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 24/11/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 07/02/2023 |
| Daw bron pob un o'r plant o gartrefi Saesneg eu hiaith. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn canolbwyntio'n gliriach ar sut mae plant yn gwneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dros gyfnod

A2 Datblygu'r defnydd o arsylwadau i lywio cyfleoedd dysgu yn y dyfodol yn well

A3 Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth ofynnol yn cael ei hadolygu, ei monitro a'i chadw'n gyfredol

A4 Sicrhau bod arweinwyr yn rheoli perfformiad yr holl ymarferwyr yn effeithiol i nodi cryfderau a meysydd ar gyfer dysgu proffesiynol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau eu hamser yn Rhayader Under 5’s Pre School. Mae ganddynt ddigon o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol am eu chwarae. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd, gan ddewis ble i chwarae a beth i chwarae ag ef yn hyderus. Mae bron pob un o’r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn ymhél â gweithgareddau am gyfnodau parhaus, sy’n briodol i oedran. Mae’r rhan fwyaf o blant yn gyfathrebwyr hyderus ac allblyg. Er enghraifft, maent yn troi’n hapus at ymarferwyr i’w cynnwys yn eu chwarae ac yn sgwrsio’n hawdd â nhw amser byrbryd am bethau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae bron pob un o’r plant yn ffarwelio â’u rhieni a gofalwyr o’u gwirfodd yn hapus ac maent yn awyddus i chwarae gyda’u ffrindiau. Mae ganddynt berthnasoedd cynnes a sefydlog gydag ymarferwyr ac maent yn troi atynt am sicrwydd pan fyddant yn teimlo’n emosiynol neu’n ofidus er mwyn cael cymorth, sy’n gwneud iddynt deimlo’n ddiogel. Er enghraifft, arhosodd plant a oedd yn ansicr wrth gyrraedd yn agos at ymarferwyr hyd nes eu bod teimlo’n barod i ymuno â’r lleill a chwarae. Mae arferion y lleoliad yn glir ac yn gyfarwydd i’r rhan fwyaf o blant. Er enghraifft, maent yn atgoffa ymarferwyr pan mae’n amser cael byrbryd. Mae bron pob un o’r plant yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn ac mae pethau meddylgar sy’n eu hatgoffa am adref, fel eitemau cyfarwydd yn ardal chwarae rôl y cartref, yn eu cynorthwyo i deimlo’n gartrefol ac yn gyfforddus.

Mae bron pob un o’r plant yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn dda. Maent yn rhannu adnoddau ac yn dangos caredigrwydd, gydag ychydig bach iawn o ysgogiadau gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn gwahodd eu ffrindiau i ymuno â gweithgareddau y gwyddant y bydd eu ffrindiau yn eu mwynhau. Mae bron pob un o’r plant yn dilyn cyfarwyddiadau’n briodol, fel tacluso ar ddiwedd y sesiwn.

Mae bron pob un o’r plant yn cymryd rhan yn eu chwarae a’u dysgu yn frwd. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dan do ac awyr agored yn rhydd ac yn mwynhau gweithgareddau grŵp fel chwarae gyda thoes chwarae neu gopïo’r symudiadau sy’n cael eu modelu gan ymarferwyr wrth iddynt wrando ar gerddoriaeth.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu medrau annibynnol yn effeithiol. Maent yn defnyddio cyllyll yn fedrus ac yn gymwys i dorri eu ffrwythau adeg byrbryd. Maent yn arllwys diodydd o jygiau i gwpanau tsieini ac yn mynd â’u llestri i ardal y sinc i’w golchi ar ddiwedd amser byrbryd. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau hunanofal annibynnol yn gynyddol. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo’n annibynnol ac yn rhoi eu pethau yn yr ystafell gotiau ac yn nôl eu blychau cinio ar yr adeg briodol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae medrau llythrennedd, cyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda. Maent yn siarad yn hyderus ac

yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa. Er enghraifft, wrth chwarae gyda’r fferm, mae ychydig o blant yn disgrifio’r anifeiliaid a’r peiriannau fferm sydd ganddynt gartref ar y fferm yn fanwl. Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau chwarae gyda’u ffrindiau ac ymgymryd â rolau wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn mynd â’u babanod am dro ac i ymweld â’r meddyg. Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau gwrando ar storïau ac maent yn dechrau trin a thrafod llyfrau fel darllenwyr. Maent yn troi tudalennau’r llyfr a thrafod y lluniau yn fanwl. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu’u medrau gwrando a siarad yn effeithiol. Maent yn gwrando gyda dealltwriaeth ac yn cyflawni cyfarwyddiadau’n dda. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu’u medrau echddygol manwl yn dda. Maent yn dechrau gwneud ystyr o’u marciau eu hunain a deall swyddogaethau ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ffurfio llythrennau a marciau cyfarwydd wrth geisio ysgrifennu eu henw.

Mae llawer o blant yn dechrau datblygu dealltwriaeth o eiriau Cymraeg, cyfarwyddiadau a chyfarchion syml sy’n cael eu defnyddio yn y lleoliad. Mae ychydig o blant yn cyfrif ac yn enwi lliwiau, siapiau ac anifeiliaid fferm yn eu chwarae. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd i blant ddysgu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg i gefnogi datblygiad eu hiaith ymhellach.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu’u medrau rhifedd yn briodol. Maent yn dechrau defnyddio iaith fathemategol yn eu chwarae. Er enghraifft, trafodant siâp a maint blociau a hyd y planciau y mae eu hangen wrth adeiladu tŷ fferm. Mae ychydig o blant yn dechrau deall y termau llawn a gwag wrth iddynt lenwi potiau a’u gwacau. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu’u medrau corfforol a chydlynu yn dda. Maent yn defnyddio cyllyll yn hyderus i dorri ffrwythau adeg byrbryd ac yn defnyddio tyrnsgriwiau i sgriwio hoelion i bren yn yr ardal gwaith coed. Maent yn cydbwyso ar drawstiau ac yn mwynhau neidio a symud i ganeuon actol.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn dechrau datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Er enghraifft, maent yn deall sut i raglennu dilyniant o symudiadau i wneud i’w tegan deithio ar draws y llawr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau creadigol yn briodol trwy weithgareddau celf a chrefft ac yn dewis y deunyddiau a’r adnoddau y maent am eu defnyddio. Er enghraifft, gwnânt flodau o ddarnau o bapur lliw i ychwanegu at eu fferm flociau chwarae. Mae ychydig o blant yn mwynhau archwilio sut mae paent yn cymysgu i greu lliwiau newydd gan ddefnyddio’u dwylo i gyfuno’r lliwiau ar bapur.

## Gofal a datblygiad:

Mae’r holl ymarferwyr yn ofalgar, yn feithringar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â phlant mewn modd caredig a meddylgar. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth, ynghyd ag amrywiaeth o strategaethau ymddygiad cadarnhaol, i reoli rhyngweithiadau plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i rannu ac aros eu tro, ac ystyried effaith eu gweithredoedd ar eraill. Mae eu hymatebion yn gyson ac mae bron pob un o’r plant yn hapus ac yn hyderus i fynd atynt yn rhwydd. Mae hyn yn cynorthwyo plant i ddatblygu ymdeimlad cadarn o les a hunanhyder. Maent yn sicrhau bod amseroedd byrbryd a chinio yn gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddewis eu bwyd a’u diod eu hunain ac yn eistedd gyda nhw gan eu cynnwys mewn sgwrs a modelu moesau da. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn creu awyrgylch cadarnhaol a hapus yn y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn briodol. Maent yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu ac amddiffyn plant rhag niwed ac yn rhoi gwybod am faterion sydd o bryder. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Caiff cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau eu cadw, a chaiff gwybodaeth ei chofnodi'n briodol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn monitro'r cofnodion hyn yn ddigon aml i amlygu unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac felly dileu unrhyw effaith bosibl ar blant.

Mae ymarferwyr yn arfer gweithdrefnau hylendid da ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gysylltiedig â hylendid, iechyd a diogelwch. Maent yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo iechyd plant. Er enghraifft, maent yn cefnogi ac yn annog plant i gael awyr iach ac yn annog dewisiadau byrbrydau iach.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad plant yn briodol. Maent yn dechrau deall pryd i ymyrryd er mwyn datblygu ac ymestyn chwarae'r plant a phryd i gamu yn ôl er mwyn caniatáu i blant ddefnyddio'u menter eu hunain. Mae ymarferwyr yn ymdrechu i feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â rhieni ac yn rhoi adborth yn rheolaidd ar les a chynnydd plant. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth dda gan ymarferwyr gofalgar sy'n ceisio'u deall a'u meithrin. Mae ymarferwyr yn arsylwi'r pethau mae plant yn eu hoffi ai peidio yn ddefnyddiol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'u hymarfer, ynghyd â rhannu cynnydd y plant â gwasanaethau arbenigol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda. Maent yn sylwi ar eu hanghenion a'u diddordebau ac yn ymateb yn briodol iddynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd rhoi amser i blant archwilio a chwarae a sut mae hyn yn eu helpu i ddysgu, llunio'u syniadau a datblygu'u medrau.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac maent yn dechrau ennill dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn ystyried buddiannau'r plant yn briodol ac yn defnyddio'r rhain yn fan cychwyn i'w helpu i gynllunio profiadau a gweithgareddau. Er enghraifft, yn dilyn diddordeb mewn ffermydd, maent yn ychwanegu cerbydau fferm ac anifeiliaid fferm at yr ardal adeiladu i blant chwarae â nhw. Mae ymarferwyr yn dechrau casglu gwybodaeth ddefnyddiol am ddysgu a datblygiad plant trwy arsylwi eu chwarae. Maent yn dechrau defnyddio'r arsylwadau hyn i asesu sefyllfa plant a sut gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i gyfoethogi profiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r arsylwadau hyn yn ddigon da i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau yn y dyfodol a fydd yn dyfnhau ac ymestyn dysgu plant.

Mae cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu'u medrau corfforol a chreadigol. Mae ymarferwyr yn annog medrau gwneud marciau plant yn effeithiol, gan ddarparu amrywiaeth o adnoddau ar draws yr amgylchedd lle y gall plant dynnu lluniau a cheisio ysgrifennu eu henw.

Mae'r lleoliad yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i blant adeiladu ar eu medrau iaith a chyfathrebu trwy wrando ar storïau a siarad am ddelweddau ar ffotograffau. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn briodol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddysgu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn adeiladu ar ddealltwriaeth fathemategol plant yn addas. Maent yn ymuno â chyfrif i 10, ac yn modelu hynny, pan fydd plant yn cyfrif nifer y blociau y mae eu hangen i wneud eu model. Mae ychydig o ymarferwyr yn defnyddio chwarae plant yn gyfleoedd i grynhoi dysgu blaenorol; er enghraifft, wrth chwarae gyda rhubanau lliw, maent yn gwneud siapiau mawr yn yr aer i blant eu copïo a'u henwi. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi prynu adnoddau i gefnogi medrau digidol plant, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, mae plant yn trafod sut byddant yn rhaglennu bot sy'n rhedeg ar fatri i symud ar draws y llawr. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn ystyried yn ddigon da sut bydd plant yn gwneud cynnydd yn eu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh trwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn fodelau addas o iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn chwarae'n dda ochr yn ochr â phlant ac yn defnyddio cwestiynau i herio'r hyn maen nhw'n ei feddwl ac i wirio'u bod yn deall. Ar adegau, fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn barnu pryd orau i gamu'n ôl a gwylio plant yn chwarae, a phryd mae'n briodol rhyngweithio. O ganlyniad, gall ymarferwyr weithiau ddominyddu'r chwarae a gofyn gormod o gwestiynau, nad yw'n caniatáu digon o amser i blant feddwl a llunio'u syniadau eu hunain.

Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddatblygu ymdeimlad o syndod a rhyfeddod trwy arsylwi arwyddion natur o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn annog plant i edrych yn ofalus ar sut mae dŵr wedi rhewi'n iâ a sut mae'n teimlo wrth iddo doddi.

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau a dathliadau sy'n cynorthwyo plant i ddysgu am Gymru a'i diwylliant. Maent yn cynllunio i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwneud cacenni cri a gwisgo dillad traddodiadol ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, ac yn mynd am dro yn rheolaidd o gwmpas eu hardal leol. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau addas i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill a'u traddodiadau a'u dathliadau.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r lleoliad mewn adeilad a godwyd yn ddiweddar ar dir yr ysgol leol. Mae coetir o'i amgylch, a gallant fynd at eu hardal ysgol goedwig eu hunain yn uniongyrchol y tu allan i'r safle. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd saff a diogel. Mae ganddynt systemau effeithiol, gan gynnwys asesiadau risg ysgrifenedig a gwiriadau ystafelloedd dyddiol, i leihau neu ddileu peryglon posibl. Mae system addas i reoli mynediad i'r lleoliad ac mae ymarferwyr yn cofnodi manylion ymwelwyr yn gyson. Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal a chadw'n dda ac mae'n lân, gydag arferion glanhau effeithiol i atal traws-halogi. Er enghraifft, caiff byrddau eu diheintio cyn ac ar ôl i blant fwyta. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, ac yn darparu preifatrwydd ac urddas priodol i'r plant.

Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn ddeniadol ac mae'n darparu amgylchedd cyfoethog a hapus ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardal dan do yn eang ac mae plant yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r nesaf. Mae dodrefn ar lefel addas o

isel, gan ganiatáu i blant eu defnyddio a mynd atynt yn annibynnol. Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i'r plant, y maent yn cael atynt yn annibynnol ac yn symud o un ardal i'r nesaf wrth iddynt chwarae. Mae lle i ymarferwyr chwarae ochr yn ochr â phlant mewn grwpiau bach ac mewn parau. Er enghraifft, gall plant ac ymarferwyr swatio gyda llyfr ar y clustogau yn y gornel lyfrau neu gallant adeiladu modelau mawr o flociau pren. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r lle yn hyblyg ac yn ystyried anghenion y plant, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn dda. Er enghraifft, maent wedi darparu ardal 'den' dawel i'r plant hynny sydd, efallai, angen amser ar eu pen eu hunain mewn lle clyd, anogol a mwy caeedig.

Mae'r amgylchedd wedi'i addurno ag enghreifftiau o waith celf diweddar y plant. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant ac mae'n eu helpu i deimlo'n falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Gall y lleoliad fanteisio ar ardal awyr agored amgaeedig yn uniongyrchol, sy'n cael ei defnyddio bob dydd. Mae ymarferwyr yn rhoi amrywiaeth eang o gyfleoedd i'w plant sy'n eu cynorthwyo i ddysgu am y byd o'u cwmpas.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da sy'n hwylus i blant, sy'n addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant. Mae ymarferwyr yn ychwanegu at yr ardaloedd dysgu dan do yn dda. Er enghraifft, maent yn darparu eitemau cartrefol fel fframiau ffotograffau a phowlen ffrwythau tsieini yng nghornel y cartref, ynghyd â dewis o botiau a sosbenni yn ardal y gegin. Mae ymarferwyr yn cefnogi ymwybyddiaeth plant o wahanol ddiwylliannau trwy ddarparu adnoddau priodol, fel doliau a llyfrau am wahanol bobl a'u traddodiadau a'u dathliadau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae ethos cynnes a chroesawgar yn y lleoliad. Mae'r arweinydd, sydd newydd ei phenodi, wedi sefydlu ymdeimlad cryf o waith tîm gyda'r staff yn gyflym ac, o ganlyniad, mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol i gefnogi ei gilydd. Er ei bod yn newydd i'w swydd, mae'r arweinydd wedi gweithio'n gyflym i roi newidiadau buddiol ar waith ar draws y lleoliad. Mae'r aelodau pwyllgor a'r unigolion cofrestredig wedi creu partneriaeth gadarn ac, o ganlyniad, mae'r arweinydd yn teimlo bod cefnogaeth dda ganddi yn ei rôl newydd. Mae arweinwyr wedi creu gweledigaeth glir, lle mae plant yn hapus ac yn ymhél â'u dysgu ac yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth iddynt ddatblygu medrau newydd. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n dda â staff a rhieni.

Mae arweinwyr yn nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y lleoliad yn gywir. Maent yn dechrau defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth yn dda i lywio'u prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac mae'n darparu darlun cywir o'r lleoliad, gan ganiatáu i rieni wneud penderfyniadau gwybodus am addasrwydd y lleoliad i'w plentyn. Yn gyffredinol, mae gan y lleoliad bolisïau effeithiol ar waith. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod cwblhau'r adroddiad ansawdd gofal yn cael ei adolygu a'i weithredu yn amserol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan staff swydd-ddisgrifiadau clir a chyfredol sy'n cynnwys gwybodaeth glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a bod nifer addas o ymarferwyr â chymwysterau a phrofiad perthnasol a phriodol. Mae gweithdrefnau arfarnu a goruchwylio priodol ar waith ar gyfer arweinydd y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r systemau ehangach ar gyfer goruchwylio ac arfarnu ymarferwyr ar waith. O

ganlyniad, nid yw ymarferwyr yn cael cyfleoedd buddiol i fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain a nodi'r targedau ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau a chyllid arall yn effeithiol i wella'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn prynu adnoddau buddiol i wella'u darpariaeth awyr agored. Mae ychwanegiad diweddar y pwll tywod awyr agored yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu lles plant a'u medrau corfforol.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda â rhieni a gofalwyr ac yn rhoi gwybodaeth addas iddynt am gynnydd a datblygiad eu plentyn. Mae'r lleoliad yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni am sut y gallant gael at adnoddau am ddim yn yr ardal leol, y gall plant ddod â nhw i'r lleoliad pan fyddant yn chwarae tu allan neu'n mynd am dro yn lleol.

Mae arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau cryf ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys yr athro ymgynghorol lleol, i gefnogi a gwella dysgu a datblygiad plant. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos â thîm anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol i sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth dda a bod eu hanghenion yn cael eu bodloni. Mae trefniadau pontio addas ag ysgolion lleol i gynorthwyo'r holl blant i symud yn hyderus i gam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/04/2023